# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 29 Mehefin 2020

Amser: 10.00 - 11.25

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6389

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Suzy Davies AS<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Nia Moss (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Rhiannon Lewis (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Aled Evans (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod, yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 2.1 SL(5)557 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Datgymhwyso Dros Dro Ddeiliadaeth Swydd) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 2.2 SL(5)558 – Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 2.3 SL(5)559 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru a chytunodd y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i nodi i'r rheol 21 diwrnod gael ei thorri.

## 3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 3.1 SL(5)552 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

### 3.2 SL(5)555 - Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

### 3.3 SL(5)556 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 4 Papur(au) i’w nodi:

### 4.1 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd: Cyfarfod Pedrochrog y Gweinidogion Cyllid

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd, a nodwyd iddo gael ei anfon yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol.

### 4.2 Llythyr gan y Prif Weinidog: Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Amgylchedd - trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ddrafft diwygiedig ei adroddiad a chytunodd i gadarnhau'r newidiadau terfynol y tu allan i'r Pwyllgor. Yn ogystal, nododd y Pwyllgor fod y Cadeirydd wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ofyn am estyniad i’r dyddiad cau ar gyfer adrodd, oherwydd yr oedi i amserlen seneddol Bil Amgylchedd y DU.

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Masnach – trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft a chytunodd i drafod drafft diwygiedig mewn cyfarfod yn y dyfodol.  Yn ogystal, nododd y Pwyllgor fod y Cadeirydd wedi ysgrifennu llythyr ar y cyd â Chadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol at y Pwyllgor Busnes i ofyn am estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer adrodd, oherwydd yr oedi i amserlen seneddol Bil Masnach y DU.

## 8 Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru - canlyniad yr ymgynghoriad

Trafododd y Pwyllgor ganlyniad yr ymarfer ymgynghori, a thrafododd ei flaenraglen waith. Nododd y Pwyllgor y byddai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn dod i’r sesiwn dystiolaeth ar 13 Gorffennaf 2020.